# Aspire - cefnogi ceiswyr lloches

Dr Anna Varadi, Rheolwr Ehangu Cyfranogiad, Prifysgol Caerdydd

Dr Sara Jones, Darlithydd Cydlynol, Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Caerdydd

## Cyd-destun a Throsolwg o Aspire

Mae ceiswyr lloches, ffoaduriaid a mudwyr yn wynebu anghydraddoldebau penodol, ac yn aml maent yn grŵp heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch (AU). Cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol adroddiad yn 2016 a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod mudwyr, ffoaduriaid a cheiswyr lloches ymhlith y grwpiau mwyaf difreintiedig yn Lloegr.[1] Mae'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu yn benodol i'r grŵp hwn ac yn cynnwys bylchau mewn gwybodaeth wrth lywio system AU y DU (cais UCAS, datganiad personol, polisi derbyn cyd-destunol, hyblygrwydd tuag at ofynion TGAU a Safon Uwch) a chymorth ariannol.

Fel rhan o'n hymrwymiad fel Prifysgol Noddfa,[2] mae rhaglen Aspire Prifysgol Caerdydd yn darparu gwasanaethau a chyfleoedd pwrpasol i geiswyr lloches ac yn datblygu eu hymdeimlad o berthyn.

Mae rhaglen Aspire yn cynnwys diwrnod agored ac ysgol haf wedi'u cynllunio'n benodol i gefnogi a hwyluso dilyniant i AU yn y DU. Yn ogystal, trwy fenter Aspire, mae'r Brifysgol yn cynnig ysgoloriaethau ar gyfer ei rhaglen Llwybrau at Radd neu gwrs IELTS, i gynorthwyo ag ymrestru ceiswyr lloches ar gyfer astudiaethau israddedig neu ôl-raddedig yn y pen draw.

## Diwrnod Agored Aspire

Bob blwyddyn mae Prifysgol Caerdydd yn cynnig diwrnod agored pwrpasol i geiswyr lloches. Mae Diwrnod Agored Aspire yn cynnig lle croesawgar ac addysgiadol i ffoaduriaid, ceiswyr

Yn 2025, gyda 18 o arddangoswyr, croesawyd dros 70 o geiswyr lloches o fwy na 21 o wledydd yn ein Diwrnod Agored Aspire. Roedd hyn yn gynnydd o 304% yn nifer y gwesteion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Dywedodd 100% o'r gwesteion eu bod wedi teimlo'n gartrefol ym Mhrifysgol Caerdydd ac y byddent yn argymell y Brifysgol i eraill sy'n ceisio lloches.



[1] Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2016) Is England Fairer? The state of equality and human rights 2016

[2] Mae Prifysgolion Noddfa yn rhwydwaith cenedlaethol o staff a myfyrwyr prifysgol sy'n gweithio i wneud sefydliadau AU yn fannau diogel, gan gynnig undod a grymuso pobl sy'n ceisio lloches.

lloches a’r rhai a orfodwyd i adael eu gwledydd cartref i ddysgu am opsiynau astudio mewn AU. Mae'r digwyddiad yn cynnwys arddangoswyr a sefydliadau allweddol fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru, *Refugee Education UK*, Myfyrwyr yn Gweithredu dros Ffoaduriaid (STAR), Coleg Caerdydd a'r Fro, a Glitter Cymru. Mae adrannau ac ysgolion y Brifysgol hefyd yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y diwrnod.




**Ysgol Haf Aspire**



Mae Ysgol Haf Aspire, sy'n recriwtio'n rhannol yn ystod Diwrnod Agored Aspire, yn croesawu hyd at 40 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches i'r campws am wyth diwrnod o ddosbarthiadau Saesneg am ddim, a gyflwynir gan dîm Rhaglenni Iaith Saesneg, yn ogystal â chyrsiau byr a gyflwynir gan Adran Dysgu Gydol Oes y Brifysgol. Uchafbwynt pob blwyddyn yw'r Seremoni Graddio rydyn ni'n ei threfnu ar gyfer cyfranogwyr, gan ddefnyddio'r un gynau a hetiau graddio â digwyddiadau graddio arferol Prifysgol Caerdydd, a roddir i ni ar gyfer y diwrnod gan ddarparydd y Brifysgol, *Marston Events*.

Yn 2023-24, cymerodd 33 o geiswyr lloches o 18 gwlad wahanol ran yn yr ysgol haf, gan greu cymuned ryngwladol amrywiol. Profodd y myfyrwyr fywyd prifysgol gan adeiladu cymuned gefnogol. Cynyddodd canran y cyfranogwyr a allai ddychmygu eu hunain yn astudio mewn prifysgol yn y DU yn ystod y rhaglen i 92%. Cynyddodd hyder y cyfranogwyr wrth ddefnyddio sgiliau Saesneg mewn amgylchedd academaidd o 76% i 88%, gyda phawb a gymerodd ran yn nodi gwell hyder yn eu Saesneg erbyn diwedd y cwrs.



Mae llawer o gyfranogwyr 2024-25 wedi symud ymlaen â'u taith addysgol ers hynny: derbyniodd pump ohonynt Ysgoloriaeth Llwybr Aspire i astudio ar raglen Llwybrau at Radd Prifysgol Caerdydd. Cofrestrodd sawl un arall hefyd ar y rhaglen Llwybrau, ac mae o leiaf dau a fynychodd ysgol haf 2023-24 wedi cofrestru ar gyrsiau israddedig ac ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae'r ddau fyfyriwr olaf hyn wedi derbyn Gwobr ‘Gyda'n Gilydd yng Nghaerdydd’ Prifysgol Caerdydd (a elwid gynt yn Wobr Cyfle), sef ysgoloriaeth lawn i geiswyr lloches.

Yn 2024-25, rydym wedi croesawu tua 35 o fyfyrwyr o 12 gwahanol wlad. Daeth mwy na 50% o'r ymrestriadau o'n Diwrnod Agored Aspire 2025, gyda cheisiadau pellach trwy Lwybrau at Radd Prifysgol Caerdydd a chyrsiau cymunedol Dysgu Oedolion. Bydd y garfan Ysgol Haf Aspire gyfredol yn graddio tua diwedd mis Mehefin 2025, ac ar ôl hynny byddwn yn gallu olrhain eu cynnydd tuag at AU ac i Brifysgol Caerdydd, yn benodol.

> 'Roedd y cwrs hwn yn hynod bwysig a defnyddiol i mi. Ar ôl pob gwers, roeddwn i'n teimlo cryfder a hyder. Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb a gymerodd ran am y cyfle hwn.'
> Cyfranogwr yn Ysgol Haf Aspire

> 'Os ydych chi wedi bod yn ddryslyd neu'n ansicr ynghylch beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig i chi yma, Ysgol Haf "Aspire" yw'r lle gorau i fod. Gydag Ysgol Aspire, fe welwch chi eich llwybr mewn bywyd!'
> Cyfranogwr yn Ysgol Haf Aspire

**Ysgoloriaethau Llwybrau Aspire**

Mae angen i rai ceiswyr lloches ddangos cymhwysedd yn yr iaith Saesneg a bodloni'r gofynion mynediad ar gyfer y cwrs AU maent am ei ddilyn, ac nid ydynt yn gymwys i gael cyllid myfyrwyr. Yn ogystal, mae tlodi digidol ac allgáu digidol yn aml i'w gweld mewn cymunedau sy'n chwilio am loches. Mae Adran Dysgu Gydol Oes (LEARN) Prifysgol Caerdydd yn darparu Llwybrau at Radd (gweler yr astudiaeth achos gyfatebol) i hwyluso mynediad i AU. Mae llwyddo i basio modiwlau Llwybrau yn darparu prawf o gymhwysedd yn y Saesneg sy'n hanfodol i geiswyr lloches nad oes ganddynt y modd ariannol i dalu am gyrsiau Saesneg eraill, fel IELTS. Rydym bellach hefyd yn darparu chwe Ysgoloriaeth Llwybrau Aspire bob blwyddyn academaidd ar gyfer ceiswyr lloches. Mae pob ysgoloriaeth yn cynnwys ffioedd dysgu wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y Llwybr, yn ogystal â gliniadur. Yn 2024-25, mae pump o ddeiliaid ysgoloriaeth Aspire wedi cael cynnig i barhau â'u hastudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd (dau ar lefel israddedig a thri ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig).

> 'Ym prifysgol Caerdydd, mae fel pe bai popeth amdanaf wedi dod yn fyw unwaith eto. Mae'r darlithwyr yn wych. Rwy'n gwybod nawr beth rwy'n anelu ato. Gallaf fyw. Dwi'n gallu canolbwyntio a gwybod ble dw i'n mynd. Mae wedi bod yn anhygoel. Gwneud ffrindiau, rhannu profiadau a grymuso ein gilydd.'
> Myfyriwr Ysgoloriaeth Llwybr Aspire

> 'Rwy'n edrych ymlaen at gyrraedd fy nodau a gallu creu llawer o atgofion yn fy mywyd prifysgol.
> Derbynnydd Ysgoloriaeth IELTS Aspire 2023-24'

**Ysgoloriaethau IELTS Aspire**

Ar draws 2023-24 a 2024-25 cefnogwyd 20 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches gydag Ysgoloriaethau IELTS. Roedd ysgoloriaeth 2023-24 yn darparu gliniadur, gwerslyfrau hanfodol, a ffi arholiad IELTS, tra bod ysgoloriaeth 2024-25 yn cynnwys mynediad i gwrs Saesneg Academaidd blwyddyn o hyd, gliniadur, gwerslyfrau hanfodol, ffi arholiad IELTS, yn ogystal â chymorth gyda chostau ychwanegol eraill (megis cludiant, a.y.b.).

Fel rhan o Ysgoloriaeth IELTS Aspire, mae myfyrwyr yn derbyn cymorth ar gyfer arholiad terfynol IELTS trwy gwblhau pum dosbarth Saesneg Academaidd i Oedolion. Mae'r cyrsiau hyn yn datblygu hyfedredd Saesneg myfyrwyr at ddibenion academaidd gan gynnwys sgiliau darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad, yn ogystal â chryfhau eu gramadeg, eu geirfa academaidd, eu dealltwriaeth o gonfensiynau academaidd, eu sgiliau ymchwil a'u gallu i astudio'n annibynnol. Mae'r cwrs wedi'i anelu at fyfyrwyr sydd angen gwella eu Saesneg academaidd mewn cyfnod byr er mwyn paratoi i ddilyn astudiaeth academaidd mewn amgylchedd cyfrwng Saesneg yn y dyfodol agos.

Cafodd y rhai a dderbyniodd ysgoloriaeth yn 2024-25, nifer ohonynt yn gyn-fyfyrwyr Ysgol Haf Aspire, gymorth unigol hefyd gyda'u datganiadau personol a cheisiadau am le yn y brifysgol, ac maent i gyd yn gweithio tuag at symud ymlaen i astudiaethau AU pellach.

**Sylwadau i gloi**

Mae rhaglen Aspire yn elfen hanfodol o'n hardystiad fel Prifysgol Noddfa, ac mae'n darparu cyfle allgymorth cryf sy'n alinio â chenhadaeth ddinesig y Brifysgol. Mae gweithgareddau Aspire yn gweithio gyda'i gilydd yn gyfannol, mewn ffyrdd sy'n meithrin pontio o un elfen i'r nesaf, gan ddatblygu hyder dysgwyr a'u hymdeimlad o berthyn i'w cyfoedion a'r Brifysgol, a thrwy hynny hwyluso eu camau nesaf i addysg uwch.

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i chynhyrchu a'i rhannu fel rhan o brosiect QAA Cymru a ariennir gan Medr: Galluogi dysgwyr i symud ymlaen i addysg uwch a gwneud cynnydd.

Gallwch ganfod mwy am y prosiect ar wefan QAA Cymru.

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research